heddwch

Rhif 67 > Gaeaf 2017 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

# ARFAU NIWCLEAR: *cam chwyldroadol yn y CU*

**Cafodd hanes ei greu ar 27 Hydref 2016 pan fabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig benderfyniad hynod yn cynnig 2017 fel dyddiad ar gyfer negydu cytundeb newydd â grym cyfreithiol i wahardd arfau niwclear.**

Mae'r bleidlais yn bwysig am ei bod yn symud gweithredu diplomyddol a chyfreithiol o gyrraedd feto llywodraethau niwclear-ddibynnol sydd am gadw eu 'breintiau' o dan y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY) niwclear.

Nid oedd hi'n syndod i neb bod UDA, y DU, Ffrainc, Rwsia ac Israel wedi pleidleisio yn erbyn, ynghyd ag Awstralia, Japan a'r rhan fwyaf o NATO. Ond ni allant atal y broses mae'r CU wedi ei lansio. Bellach mae ganddyn nhw ddewis: p'run ai boicotio'r negydu, gan wybod y gall y cenhedloedd di-niwclear ddod â chytundeb gwaharddiad niwclear i rym hebddynt, neu gyfranogi yn y gobaith y gallant wanhau'r canlyniad er mwyn gwarchod eu buddiannau niwclear.

Ar sail profiad y gorffennol gyda'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr, y Cytundeb Gwahardd Ffrwydron a'r Cytundeb Cadoffer Clwstwr, bydd ymdrechion y DU i atal y negydu rhag mynd rhagddo yn troi'n ymgais i fwrw'r broses oddi ar y cledrau, ei diystyru, ei rhwystro a'i thanseilio.

Pan gwblheir cytundeb gwahardd arfau niwclear, fodd bynnag, bydd y DU ei arwyddo cyn hir, heb fawr frwdfrydedd, ac yna'n oedi cyhyd ag y medrant cyn ei gymeradwyo, er mwyn achub yr hyn a fedrant o ffiasgo adnewyddu Trident. Ac o fewn cenhedlaeth, dichon y bydd gwleidyddion a diplomyddion y DU yn hawlio'r clod am y cytundeb fel un o nodau hir-dymor Prydain.



*Llun: Richard Outram*

*Caernarfon: Diwrnod Heddwch Rhyngwladol, Medi 21ain 2016 (gweler tud. 4)*

***Parhad ar Dudalen 2***

# ARFAU NIWCLEAR: *cam chwyldroadol yn y CU* (parhad)

## Dyma arweiniad CND Cymru i'r penderfyniad a'i oblygiadau:

### • Beth oedd y bleidlais?

Cariwyd y cynnig 'Bwrw ymlaen â diarfogi amlochrog', gyda 123 o wladwriaethau o blaid, 38 yn erbyn, ac 16 yn atal eu pleidlais. O'r naw gwladwriaeth sydd ag arfau niwclear, pleidleisiodd pump yn erbyn dechrau negydu ar wahardd arfau niwclear (Prydain, Ffrainc, Israel, Rwsia a'r Unol Daleithau), ataliodd tair eu pleidlais (China, India a Pakistan), a phleidleisiodd Gogledd Korea o blaid y gwaharddiad.

### • Pryd fydd y negydu'n cychwyn?

Mae'r penderfyniad yn gorchymyn bod y gynhadledd negydu i ymgynnull ddwywaith yn 2017. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar y 27-31 Mawrth a'r ail ar y 15 Mehefin - 7 Gorffennaf. Mae'r penderfyniad yn galw ar wladwriaethau a fydd yn cyfranogi yn y gynhadledd i 'ymdrechu hyd eithaf eu gallu i lunio cyn gynted ag y bo modd offeryn â grym cyfreithiol i wahardd arfau niwclear.'

### • Pwy all gymryd rhan yn y negydu?

Pob gwladwriaeth, ni waeth sut y pleidleisiodd, a chyrff rhyngwladol a chymdeithas sifil hefyd. Rydym am i gymaint ag sy'n bosibl o'r gwledydd a bleidleisiodd Na i gyfranogi yn y negydu yn ddidwyll. Rydym yn hyderus y gwna nifer. Anogir pob gwladwriaeth i gyfranogi, ond ni roddir i'r un ohonynt bŵer feto i atal y negydu neu'r penderfyniadau.
Mae hynny'n golygu y gellid rhagweld cyflwyno cytundeb gwahardd arfau niwclear mewn pryd i'r Cenhedloedd Unedig ei fabwysiadu mewn cyfarfod lefel-uchel yn 2018, fel yr argymhellodd rhai gwladwriaethau eisoes.

### • Beth fydd gwir effaith y cytundeb hwn os na chaiff ei arwyddo gan wledydd sydd ag arfau niwclear?

Nid yw gwahardd arfau niwclear yr un fath â'u dileu. Bydd gwahardd arfau niwclear yn sefydlu norm rhyngwladol yn erbyn meddu ar arfau niwclear, a fydd yn gymorth i leihau gwerth canfyddedig y fath arfau. Bydd yn tynnu llinell rhwng y gwladwriaethau hynny sy'n credu bod arfau niwclear yn annerbyniol ac yn anghyfreithlon, a'r rhai hynny sy'n credu bod arfau niwclear yn gyfreithlon ac yn gallu cynnig diogelwch.
Er y gall cael gwared o arfogaethau niwclear y byd fod yn broses faith, bydd gwahardd arfau niwclear yn gwneud cynnal a chadw a datblygu arfau niwclear yn llai deniadol ac yn fwy anodd, i wledydd sydd ag arfau niwclear eisoes a rhai a allai fod yn ystyried hynny.
Mae profiadau blaenorol gydag arfau biolegol, arfau cemegol, ffrwydron tir a chadoffer clwstwr, yn dangos fod gwahardd yn dod cyn dileu, hyd yn oed os na fydd pob gwlad yn arwyddo'r cytundeb yn y lle cyntaf.

### • Pam ddylai'r DU ymuno yn y negydu?

O dan Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear, mae dyletswydd cyfreithiol ar y DU 'i fynd ati i negydu'n ddidwyll ar fesurau effeithiol yn ymwneud â dod â'r ras arfau niwclear i ben yn fuan iawn ac â diarfogi niwclear.' Ymhell o fod yn arweinydd mewn diarfogi dwyochrog, fel yr hawlia yn aml, mae llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn gwrthwynebu trafodaethau amlochrog newydd tuag at gytundeb gwahardd byd-eang, yn ogystal â dewis cadw ei harfogaeth niwclear ac uwchraddio systemau cysylltiedig. Mae'r DU yn prysur golli unrhyw hygrededd ynglŷn â diarfogi niwclear: rhaid i'r llywodraeth ailwerthuso a fydd yn cefnogi proses wahardd y CU neu'n aros ar yr ochr anghywir i hanes.

# Y cytundeb – agwedd Sweden

**Sefydlodd Sweden gomisiwn i adolygu posibiliadau'r cytundeb i wahardd arfau niwclear. O hynny, deilliodd polisi a ystyriwyd yn drylwyr dros ben, ac sydd wedi ei dymheru yn nhân sgeptigiaeth a gelyniaeth aelodau'r wrthblaid seneddol a hebogiaid y weinyddiaeth amddiffyn.**

Dyma grynodeb o'i brif elfennau:

* Mae canlyniadau dyngarol arfau niwclear, a'r peryglon cysylltiedig, yn golygu ei bod yn hanfodol gweithredu; nid yw parhau â'r ffyrdd cyfredol o fynd ati a chynnal y statws quo yn ddigonol.
* Mae'n gwbl anghyson mai arfau niwclear yw'r unig gategori o arfau dinistr torfol sydd heb eu gwahardd gan gyfraith ryngwladol; mae'n rhesymegol unioni hynny gydag offeryn cyfreithiol newydd.
* Mae ceisio sicrhau cytundeb gwahardd yn gwbl gyson â pholisïau diarfogi a diogelwch Sweden; nid oes angen dewis rhwng cefnogi negydu cytundeb gwahardd a cheisio chysylltiadau amddiffynol closach gyda phartneriaid rhanbarthol.
* Bydd cytundeb gwahardd yn ategu a chefnogi y CAY, y CGPC, ac offerynnau eraill.
* Efallai na fydd cytundeb gwahardd yn effeithiol yn y pen draw, ond nid yw hynny'n rheswm dros beidio â rhoi cynnig arno.
* Bydd Sweden yn cefnogi pob mesur o unrhyw fath, concrid neu normadol, a all gyfrannu at symud tuag at ddiarfogi niwclear – yn cynnwys cytundeb gwahardd.

## • A yw bod yn aelod o NATO yn atal gwladwriaethau rhag cyfranogi ac arwyddo'r cytundeb?

Mae aelodau NATO wedi cadw'r hawl i fabwysiadu polisïau cenedlaethol annibynnol ar arfau niwclear, ers sefydlu'r Gynghrair. Cyn pleidlais y CU, roedd seneddau Norwy, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg wedi dadlau'n gryf na ddylai eu llywodraethau wrthwynebu'r cynnig, er mai dim ond yr Iseldiroedd fu'n ddigon dewr i herio cyfarwyddyd NATO ac atal ei phleidlais.

**Mae'n anodd dadlau achos gwell, mwy rhesymol, dros geisio'r cytundeb gwahardd. Nid yw'r gwarddiad naill ai'n ateb hudolus nac yn fygythiad ofnadwy i sefydlogrwydd rhyngwladol; dim ond un arf ydyw o blith nifer y gellid ac y dylid eu defnyddio i gyrchu byd sy'n rhydd o arfau niwclear.**

*Brian Jones*




**Tuag at gytundeb bydeang i wahardd arfau niwclear**

## heddweithredu:

**A ydy eich cynrychiolwyr etholedig wedi arwyddo'r Apêl Seneddol Fyd-eang o blaid Gwaharddiad ar Arfau Niwclear?**

Os na, da chi, cysylltwch â nhw i ofyn iddyn nhw arwyddo.

Erbyn dechrau Mis Rhagfyr 2016, roedd y gwleidyddion canlynol o Gymru wedi arwyddo: Mick Antoniw AC, Dafydd Elis-Thomas AC, John Griffiths AC, Llŷr Huws Gruffydd AC, Mike Hedges AC, Bethan Jenkins AC, Dai Lloyd AC. Julie Morgan AC, Adam Price AC. Jennny Rathbone AC, David Rees AC, Simon Thomas AC, Joyce Watson AM, Leanne Wood AM; Ann Clwyd AS, Jonathan Edwards AS, Paul Flynn AS, Nia Griffith AS, Liz Saville-Robers AS, Jo Stevens AS, Mark Williams AS; Jill Evans ASE, Derek Vaughan ASE.

Gwybodaeth lawn (yn cynnwys fersiwn dwyieithog o'r apêl) ar gael ar wefan
CND Cymru www.cndcymru.org
neu wefan ICAN www.icanw.org

## Symud ymlaen

**Fe gofir 2016 fel blwyddyn o argyfyngau.**

Y rhyfeloedd enbyd ac erchyll yn Syria a Yemen, yr argyfwng ffoaduriaid, daeargryn deublyg Brexit a Trump, yn ymchwydd mewn trais a chasineb hiliol, y dystiolaeth gynyddol bod yr hinsawdd yn newid … O ran diogelwch byd-eang, mae'r dyfodol yn ddirgelwch, lle bydd gwaith CND Cymru mor berthnasol ag erioed.

Ledled Cymru, er gwaetha'r rhaniadau a'r boen, mae undod, trafod gwleidyddol, cefnogaeth i ffoaduriaid a gweithredu gwrth-hiliol yn tyfu, a phobl ifanc yn ymfywiogi. Tra bod y cwestiynau mawr yn dal heb eu hateb, mae gweithredu lleol graddfa-fach yn braenaru'r tir ar gyfer y dyfodol.

## Pabïau gwyn 2016

**Heddwch, os gwelwch yn dda – i BAWB.**

Dyna neges Elis Gruffydd ap Gwynfor, o Gynwyd, ger Corwen, sy'n 8 mlwydd oed. Gwerthwyd mwy o babïau gwyn, sy'n coffáu holl ddioddefwyr rhyfel, nag erioed yn 2016.




## 90 mlynedd ac yn dal i orymdeithio

**Does dim angen ebyst a chyfryngau cymdeithasol i drefnu protest effeithiol.**

Ym 1926, ymgasglodd 2,000 o wragedd yn nhre Penygroes yn Arfon i orymdeithio dros heddwch. Trefnwyd hyn gan Gynghrair Ryngwladol Menywod dros Heddwch a Rhyddid.

Anelodd gwragedd Penygroes am Gaernarfon lle mae hen ddarn o ffilm British Pathé yn eu dangos yn cario'u baneri. Aeth llawer ohonynt ymlaen i gyfarfodydd yn nhrefi'r glannau, yn cynnwys Bangor, Penmaenmawr, Conwy, y Rhyl a Threffynnon. Teithiodd ugain ymlaen i Lundain, ac anerchodd dwy ohonynt dorf o fwy na 10,000 o 'bererinion dros heddwch' yn Hyde Park.

Ar Ddydd Rhyngwladol Heddwch, 21 Medi 2016, coffawyd y digwyddiad hwn ar y Maes yng Nghaernarfon gyda gorymdaith o fwy na 300 o bobl (gweler llun y clawr) yn cynnwys plant o nifer o ysgolion cynradd lleol. Gweithredwyr o'r cylch a drefnodd y digwyddiad. Mae Grŵp Treftadaeth Heddwch Caernarfon yn sefydlu 'llwybr heddwch' (y gellir ei ddilyn ag ap ffôn), menter gan Gymru dros Heddwch.

## O'r Rhyl i Gasnewydd

**Dyw Bruce Kent byth yn rhoi'r ffidil yn y to!**

Ym mis Ionawr 2016, daeth yr ymgyrchydd diflino dros ddiarfogi i Benwythnos Heddwch a drefnwyd gan Gynulliad Pobl newydd egnïol y Rhyl. Gallwch weld y digwyddiad ar YouTube, o dan Rhyl People's Assembly – Bruce Kent, Peace Weekend. Da chi, gwyliwch e, yn https://www.youtube.com/watch?v=7CK9okLNac0

Dychwelodd Bruce Kent i Gymru ym mis Tachwedd 2016 i annerch cyfarfod o gangen CND Casnewydd, ochr yn ochr â'r gweithredydd Marie Walsh, gyda John Cox yn y gadair. Mae neges Bruce Kent mor glir, deifiol – a ffraeth – ag erioed.

## NFLA: dewisiadau di-niwclear i Gymru

Cyfarfu Fforwm Cymru'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA), a gefnogir gan CND Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 21 Mehefin ac yn Llangefni ar 19 Tachwedd 2016. Galwodd cyfarfod y De am ynni datganoledig ac am atal ynni niwclear newydd, gan fynegi pryder ynglŷn â gollyngiadau ymbelydrol i mewn i Fôr Iwerddon. Yn Llangefni, ymunodd PAWB (Pobl Atal Wylfa B) a CADNO (gweler tud. 9) â'r NFLA. Mynegodd siaradwyr bryderon lleol ynghylch y cynlluniau arfaethedig ar gyfer Wylfa B a bygythiad Adweithyddion Bychain Modwlar yn Nhrawsfynydd, ac ystyried strategaeth ynni amgen ar gyfer Cymru.

## Heddwch yw Rhyfel

Y slogan Orwelaidd hwn – addas iawn yn ein hoes 'ôl-wirionedd' ninnau – oedd teitl seminar a gynhaliwyd ym mis Medi 2016 gan Atal y Rhyfel Aberystwyth a Cheredigion. Bu'r Athro Ken Booth, awdur ac ymchwilydd ym maes diplomyddiaeth ryngwladol, a John Rees, o Atal y Rhyfel, yn ystyried natur a gwleidyddiaeth gwrthdaro.

# Damwain Aberporth: y gwir o'r diwedd

**Ym mis Medi 2014, ymgasglodd mwy na 200 o brotestwyr ger Parc Aberporth, Blaenannerch, y ganolfan dronau milwrol yng Ngheredigion.**

Roedd CND Cymru, Drapia'r Dronau a grwpiau eraill yn protestio yn erbyn dronau Watchkeeper, sy'n cael profion hedfan yn yr awyr uwch law gorllewin Cymru.

Eu dadl yn erbyn y dronau yw bod y rhaglen Watchkeeper yn wastraff affwysol o ryw £1.7 biliwn o leiaf, a bod defnyddio dronau, ym mha le bynnag, yn gwneud dim ond gwaethygu'r sefyllfa.

## Sut i wastraffu £15 miliwn mewn ychydig eiliadau

Lai na mis wedi'r brotest, ar 16 Hydref 2014, bu un o'r dronau Watchkeeper mewn damwain wrth geisio glanio. Yn ffodus o safbwynt y staff milwrol a oedd yn gyfrifol, digwyddodd y gwrthdrawiad o fewn terfynau'r maes awyr. Ni welwyd y ddamwain gan neb o'r tu allan. Aeth y tanwydd ddim ar dân, felly ni bu ffrwydrad swnllyd neu gymylau o fwg. Symudwyd gweddillion y drôn i lain 'diogel' gorchuddiedig, ac fe'u cipiwyd i ffwrdd ar fyrder a'u cludo i amryw ganolfannau yn Lloegr am archwiliad mwy fforensig.

## Glanio'n ffrwt

Cyhoeddodd y WA yr Adroddiad Damwain, a ddi-gelwyd yn ddiweddar, yn 2016, trwy ei sleifio i mewn i'r parth cyhoeddus ym mis Awst, pan oedd pawb bron yn torheulo ar y traeth. Dangosai fod cyfiawnhad dros bryderon y cyhoedd ynglŷn â diogelwch dronau. Penderfynasai'r rheolwyr i anwybyddu'r meddalwedd glanio otomatig a cheisio glanio'r drôn eu hunain, am fod tywydd gwael yn nesáu. Credent eu bod wedi cael y drôn i lawr,  ond roedd yn dal i fod 5 metr i fyny yn yr awyr. Ar amrantiad, plymiodd ar ei drwyn i'r ddaear, mor gyflym ac mor galed nes chwalu'n deilchion. Efallai y bydd y dilyniant ffarsaidd hwn o ddigwyddiadau yn atgoffa darllenwyr hŷn o hoff ymadrodd enwog o The Navy Lark, hen sioe gomedi radio'r BBC a ddarlledwyd o 1959-1977: 'Left-hand down a bit, right-hand up a bit, back a bit, steady as she goes' – ac yna, sŵn chwalu a malu!



*Damwain Aberporth: cwymplaniad y drôn milwrol*

## Y cyhoedd mewn perygl

Dydy meddwl am y drychineb wirioneddol a allai fod wedi digwydd y diwrnod honno ddim mor ddoniol. Yn y cyffiniau agos, ceir cartrefi, capel, mannau gwaith, ysgol, garej ceir ail-law, a'r briffordd rhwng Aberteifi ac Aberystwyth. Roedd yn wyrth na laniodd y drôn milwrol di-reol ar un o'r rhain. Yn yr adroddiad, dywed Rheolydd Gwasanaeth Traffig Maes Awyr Gorllewin Cymru iddo benderfynu peidio â galw 999 oherwydd '... ei fod yn ymwybodol o broblem bosibl o ran cysylltiadau cyhoeddus'. Byddai'n gwybod bod tanwydd awyren heb ei ddefnyddio ar ôl yn y drôn, a phe bai hwnnw wedi cynnau, byddai wedi gorfod galw'r gwasanaethau brys, y peth cyntaf y byddai unrhyw un yn ei wneud, does bosib. Ond wedyn – meddyliwch am y strâch yn y wasg pe bai hyn oll wedi dod i'r amlwg.

*Jon Plumpton*

# Am fargen!

Mae ceisiadau rhyddid gwybodaeth wedi datgelu i Lywodraeth Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, y cyngor lleol a'r UE fuddsoddi rhyw £17 miliwn o arian cyhoeddus yn natblygiad Parc Aberporth rhwng 1999 a 2015. Addawodd gwleidyddion o bob lliw y byddai'n creu swyddi. Gwyddom bellach mai dim ond tri aelod o staff parhaol sy'n cefnogi'r ehediadau o Aberporth, gyda dim ond 8 o staff llawn-amser eraill (a rhwng 20 a 40 o bobl sy'n galw heibio nawr ac yn y man).

## TRIDENT

# Swyddi heb Fomiau?

**Ar 27 Hydref 2016, mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig benderfyniad a ddylai fod ag ymgyrchwyr dros fyd mwy heddychlon yn gweiddi mewn gorfoledd.**

Bwriedir dechrau negydu i wahardd arfau niwclear yn fyd-eang (tt. 1-3). Ond mae Prydain yn gwrthwynebu'r penderfyniad, gan wneud nonsens o honiadau blaenorol y Gweinidog Amddiffyn Michael Fallon AS, "ein bod yn rhannu gweledigaeth o fyd heb arfau niwclear, wedi ei sicrhau trwy negydu amlochrog."

## Undebau ac arfau niwclear

Felly dim cefnogaeth i gytundeb unochrog neu i un amlochrog gan lywodraeth San Steffan wedi'r cwbl. Ydyn ni'n synnu? Efallai'r mai'r hyn sy'n fwy ysgytwol yw agwedd rhai arweinwyr undebau llafur sy'n cefnogi arfau niwclear oherwydd, meddent, bod angen y swyddi. Golyga hynny bod yn rhaid cadw'r diwydiant niwclear fel y mae. Cafodd unrhyw syniadau a goleddwyd gennym am ddyfodol yn rhedeg ar bŵer cynaliadwy, diogel, er lles yr amgylchedd, eu niwcio.

## Amserau newydd, hen

Mae'r agwedd gibddall hon yn ddinistriol iawn i'r mudiadau gwleidyddol positif a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar. Does dim cefnogaeth i bŵer niwclear na Trident ymhlith mwyafrif y bobl sy'n cefnogi Jeremy Corbyn, beth bynnag yr hawlia arweinwyr undebau o fewn Unite neu'r GMB.

Ymddengys, fodd bynnag, y byddai'n well gan yr undebau hyn fentro hollti'r mudiad Llafur na gweld rhwyg yn yr undeb ei hun. Dyma ran o ddatganiad ffuantus a throfaus Pwyllgor Gwaith Unite ar Trident: "Rydym ... wrth gwrs yn derbyn y ddadl foesol gref yn erbyn defnyddio arfau niwclear ... Ond does dim achos moesol chwaith o blaid peri i undeb llafur dderbyn dilead miloedd o swyddi ei aelodau ..."

Ar y llaw arall, mae'r undeb yn croesawu Arolwg Amddiffyn y Blaid Lafur a'r pwyslais mai Jeremy Corbyn "yn iawn i'w roi ar ddiarfogi byd-eang." Mae'r holl ddogfen yn darllen fel yr hen ddyfais Doriaidd o gefnogi diarfogi amlochrog, ond byth unochrog – dim byd mwy na gwyngalchiad hunan-arbedol.

Os yw'r arweinwyr undebau hyn heb weledigaeth eu hunain, gallent elwa ar syniadau o'r Alban.

## Y Dewis Albanaidd

Ym mis Ebrill 2015 cyhoeddwyd adroddiad gan STUC (Cyngres Undebau Llafur yr Alban) ac CND yr Alban yn dangos sut y gellid trosglwyddo sgiliau'n gysylltiedig â Trident i feysydd datblygu economaidd amgen. Astudiwyd modelau fel y gwaith a wnaed ar y cyfandir ar ddiwedd y Rhyfel Oer, lle datblygwyd rhaglenni i hwyluso newid chwim o waith rhyfel i waith sifil ar ôl cau canolfannau




milwrol a chwtogi ar gynhyrchu arfau.

Mae'r adroddiad yn amlinellu fel y gellid creu mwy o swyddi pe câi swm cyffelyb i'r buddsoddiad yn Trident ei fuddsoddi mewn meysydd gwariant cyhoeddus eraill. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio hybu economi werdd, rhywbeth rydym oll yn ei gefnogi, on'd ydym?

*Linda Rogers*

Canlyniad y bleidlais am adnewyddu Trident, yn San Steffan ar 18 Gorffennaf 2016, oedd: 471 dros, 116 yn erbyn. Sut bleldleisiodd eich AS lleol chi?
Gweler: https://www.theguardian.com/uk-news/2016/jul/19/trident-how-your-mp-voted

## heddweithredu

Ymgyrchu o fewn eich undeb llafur i wrthwynebu datblygiadau niwclear, boed milwrol neu sifil. Ydy eich undeb chi yn gysylltiedig â CND? Ewch i http://www.cnduk.org/get-involved/trade-unions

## SEFYDLIADAU ARFAU ATOMIG

# Cau Burghfield i lawr

**Roedd Mehefin 2016 yn fis o brotestio di-drais rhyngwladol a gwarchae a drefnwyd gan Trident Ploughshares yn Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Burghfield. Mae'r ffatri hon, ger Reading yn Lloegr, yn dylunio, cynhyrchu a gwasanaethu 'brawatalydd' niwclear Prydain.**

### Dydd Gweithredu Cymru

Gwelodd Dydd Gweithredu Cymru (15 Mehefin) aelodau CND Cymru a gweithredwyr eraill o'r Coed Duon, Caerffili, Abertawe, gorllewin Cymru a Phowys, yn cymryd rhan. Wrth Glwyd y Gogledd, roedd Côr Cochion Caerdydd a Chôr Gobaith Aberystwyth yn uchel eu cloch. Er gwaeth agenda llymder llywodraeth y DU, mae'n hapus i dalu hyd at £167 biliwn am adnewyddu a chadw Trident: "Caiff symiau anllad eu gwario ar arfau niwclear dibwrpas, tra bod y gefnogaeth i'r mwyaf diymgeledd yn ein cymdeithas tan warchae beunydd gan y llywodraeth hon", meddai Wendy Lewis, o Gaerffili.

I gael gweld ffilm Trident Ploughshares o SAA Burghfield 2016 (gydag CND Cymru, Côr Cochion a Côr Gobaith yn serennu!) ewch i: YouTube: Month of Actions Opposing the Renewal of Trident https://www.youtube.com/watch?v=WOyyJhvGSdA&feature=youtu.be

### Beth yw cyfansoddiad SAA?

Mae'r SAA yn eiddo i gonsortiwm preifat, yn cynnwys Lockheed Martin UK, Serco a Jacobs Engineering Group, gyda llywodraeth y DU yn berchen ar 'gyfranddaliad euraid'. Mae ei safleoedd yn Aldermaston, Burghfield a Blacknest yn Lloegr ac yn RNAD Coulport yn yr Alban yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Aldermaston oedd targed gorymdaith fawr gyntaf Prydain yn erbyn arfau niwclear ym 1958, a alwyd gan y Pwyllgor Gweithredu Uniongyrchol yn erbyn Rhyfel Niwclear.

### SAA o dan 'fesurau arbennig'

Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear y byddai SAA Burghfield yn cael ei roi yn ôl o dan fesurau arbennig ('sylw rheoleiddiol uwch') oherwydd trefn ddiogelwch lac. Ond Aldermaston sy'n ennill y wobr, trwy ddal i fod mewn mesurau arbennig am y bedwaredd flwyddyn o'r bron.

### Staff SAA yn cerdded allan

Nid dim ond protestwyr gwrth-niwclear sydd wedi cau Burghfield ac Aldermaston i lawr. Ym mis Tachwedd 2016, aeth gweithwyr yn y ddau SAA ar streic wrth i undebau wrthod newidiadau i'w trefniadau pensiwn. Mae CND Cymru'n dymuno pob llwyddiant iddynt, ac yn gobeithio y gallant ddod o hyd i waith mwy diogel a thecach mewn canghennau mwy moesol a defnyddiol o'r diwydiant peirianneg.

### heddweithredu:

Ymunwch â gweithredu uniongyrchol di-drais! Gwybodaeth/cysylltiadau ar wefan Trident Ploughshares http://tridentploughshares.org




*Protestwyr ynghlwm wrth long danfor bren haenog anferth, gan atal mynediad trwy Glwyd yr Adeiladwyr yn effeithiol iawn.*

# Wylfa – digon i wneud i chi wylo

**Yn ystod 2016, mae peirianwyr wedi bod yn drilio i wely'r môr ym Mhorth y Pistyll, ger Trwyn yr Wylfa, ar ben pellaf hardd a stormus gogledd Cymru.**

Maent wedi bod yn astudio'r ddaeareg, cyn adeiladu dyfais oeri â dŵr heli ar gyfer yr orsaf bŵer £14 miliwn arfaethedig. Bwriedwr adeiladu glanfa newydd hefyd, i dderbyn llongau yn cludo cydrannau ar gyfer yr adweithydd, a defnyddiau adeiladu. Felly, a yw'r project newydd yn mynd rhagddo? Mewn gair, na. Wrth i ni fynd i'r wasg, ni chafodd hyd yn oed dyluniad yr adweithydd dŵr berw uwch ei gymeradwyo'n ffurfiol. A fydd yr Wylfa Newydd yn digwydd, go iawn? Yn yr hinsawdd wleidyddol gyfredol, ac yn wyneb yr ansicrwydd economaidd, pwy a ŵyr?

## Y gwir amdani

Yn ardal Cemaes, y pentre agosaf, mae'r amheuon yn tyfu. Mae maint anferthol y safle yn fwyfwy amlwg, ac mae dicter cynyddol ynglŷn â materion cynllunio, ffyrdd a dymchwel tai, ac ynglŷn â chodi peilonau newydd anferth (byddai gosod ceblau o dan Afon Menai yn unig yn costio £100 miliwn). Dim Wylfa B – Dim Peilonau, meddai PAWB.

Mae'r cyffro ynglŷn â chreu swyddi ym dechrau gostegu hefyd: disgwylir mai pitw 25 y cant o'r 10,000 (o, ie?) arfaethedig o weithwyr adeiladu fydd yn dod o ogledd Cymru, a dim ond 45 y cant o'r staff parhaol. Roedd y bonllefau o brotest cyhoeddus i'r newyddion hwn yn cynnwys y Cyngor Sir, am unwaith, ac addawodd Horizon Nuclear y byddai'n ailystyried. Cawn weld am hynny.




*Cefnogwyr PAWB ac CND Cymru yn ymuno â'r ymgyrchydd heddwch a'r mynach Bwdhaidd o Japan, y Parch. Gyoro Nagase, ar ei daith gerdded ddeuddydd o Ynys Cwyfan i atomfa'r Wylfa yn 2016.*

## Bechtel, y bildars, allan nhw helpu?

Ydy'r enw Bechtel yn gyfarwydd? Fe ddylai fod. Dyna enw corfforaeth adeiladu a pherianneg sifil fwyag UDA. Dyma'r cwmni a gafodd y gwaith o 'ailadeiladu' Irac ar ôl rhyfel 2003. Roedd ganddo gysylltiadau clòs â'r CIA a hanes maith o adeilu pibellau olew ar draws y Dwyrain Canol. Roedd ei record yn Irac yn un ysgeler, ac yn 2006, daeth archwiliad gan lywodraeth yr UD i'r casgliad ei fod yn cynnwys camreoli affwysol.

Felly, pwy well i fod yn bartner i Hitachi a Chorfforaeth JGC Japan na'r criw yma, fel adeiladwyr arfaethedig Wylfa B?

- Bu Bechtel yn ymwneud â'r Manhattan Project, a ddatblygodd y bomiau atomig cyntaf, a ollyngwyd ar Japan ym 1945, ac â phrofion niwclear yn anialwch Nevada.
- Wedi'r Ail Ryfel Byd, aeth Bechtel yn un o'r cwmnïau mwyaf yn y diwydiant pŵer niwclear a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Yn 2016, nododd Adran Ynni'r UD fwy na 500 o ddiffygion yn eu gwaith glanhau yng ngorsaf niwclear Hanford yn nhalaith Washington.
- Yn 2014, aeth Bechtel yn gynigydd dewisol Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU ar gyfer caffael offer milwrol ar gyfer yr Awyrlu a'r Llynges.

## Collwyd wrth gyfieithu

Does ganddyn nhw ddim syniad, nac oes? Mae rhyw 57 y cant o boblogaeth Môn yn Gymry Cymraeg. Felly, pan gwynodd Horizon Nuclear ei fod am i'r mesurau diogelu iaith gael eu dileu o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn, arddangosodd ei anwybodaeth o'r diwylliant lleol a chreu cyflafan gysylltiadau cyhoeddus. Ym mis Tachwedd daeth tri mudiad sy'n ymgyrchu dros yr iaith, sef Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol yr Iaith a Chylch yr Iaith ynghyd i waldio cynigion Horizon parthed yr iaith, tai a chynllunio.

*Parhad at Dudalen 9* ▶

# Pethau'n mynd yn ffliwt i May

**Mae dilyn llwybr niwclear yn syniad gwael ar lawer cyfrif, ond mae penderfynu gwneud hynny ar sail hwylustod gwleidyddol yn gwbl drychinebus.**

Yr enghraifft amlwg yw penderfyniad Theresa May i atgyfodi project Hinkley C , draw dros y don o Fae Caerdydd. Yn haf 2016, cafwyd unfrydedd nas gwelwyd ei fath o'r blaen rhwng newyddiadurwyr o'r chwith a'r dde, Gwyrddion a dadansoddwyr Dinas Llundain, cartwnwyr gwleidyddol ac undebwyr llafur Ffrengig: cytunai pawb mai project Hinkley C bellach oedd yr eliffant gwyn mwyaf yn hanes projectau seilwaith, ac y dylid rhoi terfyn arno cyn gynted â phosib.

## Yn ôl ar y gweill?

Pan olynodd 'Maggie' May Cameron, canslwyd y siampaen ar gyfer EDF a gohirio'r project am y tro. Syniad gwych. Ond ym mis Medi, roedd project Hinkley yn ôl ar y gweill, er gwaetha'r pryderon ynglŷn â'r gost a'r geo-wleidyddiaeth gyda China. Roedd May, mewn panics piws ar ôl Brexit, am fod â phroject seilwaith mawr er mwyn profi i'r byd ei bod hi'n 'fusnes fel arfer' ym Mhrydain.

## Pwy sy'n elwa ...

Mae 'busnes fel arfer' y dyddiau yma'n golygu fod corfforaethau'n dwyn yr hufen (yr elw) tra bod yr hen gyhoedd druan yn talu'r bil. Nid gwladoli mo hyn, ond Twm Siôn Cati tu chwith, yn dwyn oddi wrth i tlodion i dalu'r cyfoethogion. Rydym bellach wedi dysgu bod y cytundeb crocbris yma'n rhoi terfyn ar faint y bydd rhaid i'r gweithredwyr a buddsoddwyr yn y project ei dalu am storio gwastraff ymbelydrol. Boed i'r trethdalwr fynd i'w boced am y gweddil.

## 'Catch 22'

Ym mis Hydref 2016 daeth swyddogion yr Arolygiaeth Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol i Langefni i drafod y 'broses cydsynio i ddatblygu' ar gyfer Wylfa B gyda'r cyhoedd. Mae'r broses yn ddiffygiol yn ei hanfod gan ei fod yn seiliedig ar y Datganiad Polisi Gwladol ('creigwely'r' gyfraith gynllunio, yn ôl yr Arolygiaeth), ffuglen wleidyddol yn y lle cyntaf sydd bellach wedi dyddio'n anobeithiol. Ceir cliw i'r math yma o gynllunio yn y gair 'cydsyniad'. Unig nod yr ymarferiad yw hwyluso cymeradwyo'r cynllun dan sylw trwy dicio bocsys. Mae'r system yn llawn ymadroddion 'Catch 22', yn cynnig pob cyfle posibl i osgoi cyfrifoldeb ac ochrgamu'r broses ddemocrataidd. Cafwyd y fath ymateb gan y gynulleidfa fel na allodd pobl y CSC fynd ymhellach na thudalen 3 o'r cyflwyniad PowerPoint.

## heddweithredu:

Mae angen eich cefnogaeth ar PAWB. Gweler tud. 14 am ddigwyddiadau yn 2017. Ar Facebook, ymwelwch â Stop Wylfa – No Nuclear in Wales, neu ewch i'r wefan, http://stop-wylfa.org/wp/

## ... pwy sy'n talu?

Mae cwmnïau eraill, nid EDF yn unig, yn llyfu eu gweflau wrth weld mabwysiadu'r egwyddor hon. Awgrymodd NuGen, y cwmni sy'n bwriadu adeiladu tri adweithydd Westinghouse yn Moorside, Cumbria, ym mis Tachwedd 2016 y dylem ni, y trethdalwyr, gwrdd â chostau peirianegol adeiladu gorsafoedd niwclear newydd hefyd. Efallai eich bod chi'n cofio (ond dydyn nhw ddim), yn ôl yn nyddiau Tony Blair, i'r Toriaid ddweud na fyddent yn dewis y llwybr niwclear oni fyddai'n talu amdano'i hun.

## Dallineb bwriadol?

Mae'n beth hynod iawn nad yw'r rhan fwyaf o wleidyddion yng Nghymru fel pe baent yn gallu amgyffred y ffaith gwbl amlwg bod technoleg niwclear yn prysur droi'n hanes, ac os y cwblheir unrhyw un o'r gorsafoedd pŵer anferthol hyn, mai dinosoriaid fyddan nhw. Mae ynni adnewyddadwy yn datblygu ar garlam, ynghyd â chynlluniau storio ynni, gridau clyfar a fydd yn gallu ymdopi â chyflenwad cyfnewidiol, a chynhyrchu ynni yn y gymuned leol. Does gan yr ymdrechion gorffwyll i gadw'r diwydiant niwclear ar dir y byw a hyfforddi cenedlaethau newydd mewn peirianneg niwclear, ddim byd i'w wneud â sicrhau bod ganddynt weithlu a allai gynhyrchu arfau dinistr torfol, does bosib?

## heddweithredu:

Arwyddwch ddeiseb yn erbyn Hinkley C! Ewch i http://stophinkley.org/PETITION.htm

## PŴER NIWCLEAR

# Gwylio trenau

**Maen nhw i'w gweld yn ddigon diniwed yn chwyrnellu trwy orsafoedd prysur a maestrefi, ond dyw rhai trenau ddim yr hyn yr ymddangosant.**

Os mae arwydd Direct Rail Services sydd arnynt, maent yn cario deunydd niwclear a'u perchennog yw'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear. Mae gan DRS bencadlysoedd yn Crewe a Chaerliwelydd, ac mae'n rhedeg trenau cyson ar hyd arfordir gogledd Cymru.

Gall gwastraff o orsafoedd pŵer niwclear, yn cynnwys plwtoniwm y gellir ei ddefnyddio mewn arfau niwclear, gael ei gludo i garthbwll niwclear gorlawn Sellafield, neu i Capenhurst i'w gyfoethogi a'i ailddefnyddio fel tanwydd. Mae'r trenau'n cludo 'fflasgiau' mawr gwyn neu liw hufen sy'n dal rhodenni tanwydd ymbelydrol dros ben. Cafodd profion diogelwch y rhain eu beirniadu, ac mae tystiolaeth mewn rhai achosion bod llygredd ymbelydrol wedi codi i wyneb y fflasgiau (fel eu bod yn 'chwysu'). Gall trenau niwclear ddod oddi ar y cledrau, fel yr un a oedd yn teithio o Barrow i Sellafield ym mis Medi 2014.



*Llwytho fflasg wastraff niwclear ar dren DRS yn y Fali.*

Bydd trenau DRS yn teithio trwy gyffyrdd prysur, trefi a dinasoedd, hyd yn oed ar oriau brig, gan basio o fewn 3 metr i drenau teithwyr. Gallai damwain droi'n drychineb. Bydd trenau DRS Cymru yn codi eu llwythi o wastraff o'r Wylfa o ben draw'r lein yn y Fali, Sir Fôn, ac yn teithio trwy Fangor, Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn a'r Fflint.

• Ym mis Mehefin, bu gweithredwyr gwrth-niwclear yn dobarthu taflenni yng ngorsafoedd Bangor, Bae Colwyn a'r Rhyl, gydag ymgyrchu tebyg yn digwydd o Bridgewater i Bromley, o Lundain i Inverness.

# Yr SMR: y cadno'n brathu 'nôl

**Ym Meirionnydd, mae rhai o hoelion wyth y frwydr yn erbyn Trawsfynydd, yr orsaf Magnox ddadleuol ar lan llyn, a fu'n gweithredu o 1965 i 1991, wedi adfywio.**

Cynhaliodd CADNO (Cymdeithas Atal Dinistr Niwclear Oesol) eu cyfarfod newydd cyntaf ym Maentwrog ym mis Hydref 2016. Felly pam mae'r cadno neilltuol hwn yn ôl yn y cwt ieir?

Wel, y chwiw newydd ddiweddaraf ymhlith y lobi niwclear yw'r Adweithydd Modwlar Bach (neu'r SMR), ac maen nhw'n llygadu Trawsfynydd (neu Trawsnobyl, chwedl rhai) fel lleoliad cyfleus. Mae 'nhw' yn yr achos yma yn cynnwys nid yn unig selotiaid Cymdeithas y Diwydiant Niwclear, ond AS lleol Plaid Cymru, Liz Saville Roberts, a'r Arglwydd Mawr ei hun, Dafydd Elis Thomas AC, sydd newydd gyhoeddi ei fod bellach yn Aelod Annibynnol yn y Senedd.

Mae CADNO'n poeni ynglŷn â gwastraff ymbelydrol, peryglon i iechyd y cyhoedd a diogelwch, yr effaith ar amaethu a thwristiaeth, a chysylltiadau posibl y dechnoleg gydag angen y lluoedd arfog am gynnal sgiliau peirianneg niwclear, neu gyda'r llongau tanfor niwclear sy'n cludo Trident.

Ai'r SMR yw blaen cad dadeni niwclear newydd? Nage, wir – dyma dafliad rhyfygus olaf y deis i ddiwydiant sy'n prysur redeg allan o amser. Dyw'r adweithydd bach ddim mor fach, mor newydd, mor gynwysedig nac mor ddiogel â hynny.

Mae'n affwysol o ddrud. Mae hyd oed Swyddfa Atebolrwydd llywodraeth yr UD yn awgrymu hynny yn ei hadroddiad 2015. Deffrowch, wleidyddion! Mae'r SMR yn bygwth troi'n drychineb tymor-hir. Fel y noda CADNO, mae'r dyfodol yn adnewyddadwy. Mae'r chwyldro hwnnw ar y gweill ers tro.

### heddweithredu:

A hoffech chi gefnogi ymgyrch CADNO?
Cysylltwch ag Awel Irene ar 07867 790 971 NEU
Dylan Edwards ar 01678 520 428.

# ER COF

## John Ainslie
## *Cydlynydd CND yr Alban*
## *1954 – 2016*

**Bu farw'n cyfaill a'n cydymaith, John Ainslie yn annhymig, o ganser, yn 62 oed, ym mis Hydref 2016.**

Wrth i'r llong danfor Trident gyntaf gyrraedd Faslane ym 1992, roedd John, mewn canŵ, yn un o'r fflotila ar afon Clud i'w 'chroesawu'. Roedd John yn addfwyn ac yn wylaidd ac yn ymgyrchydd brwd. Sgrifennodd sawl adroddiad defnyddiol ar agweddau ar bolisi niwclear yn ogystal â mynd ag CND yr Alban 'i'r strydoedd'. Gwyddai John ei bod yn dra phosib y gallai ymreolaeth i'r Alban sicrhau dileu Trident, ac y gallai'r Alban osod esiampl i'r byd. Roedd ei adroddiad cyhoeddedig diweddaraf (Gorffennaf 2016) yn ymwneud ag esgus bod system Trident Prydain yn Brydeinig, pan y mae, mewn gwirionedd, yn llwyr ddibynnol ar UDA. Yn yr wythnosau cyn iddo farw, roedd yn gweithio ar adroddiad ynglŷn ag effeithiau posibl damwain i gonfoi arfau niwclear.
Ffarweliwn yn drist iawn â John, ond gwyddom y bydd yno gyda ni ar y strydoedd, yn Faslane, ac mewn mannau eraill gyda Cindy a Big Sandy.

## Vera Jones
## *CND Cymru*
## *Bu farw 2015, Llandrindod*

**Rhaid cofnodi ein gwerthfawrogiad o'r cyfraniad hael a adawodd Vera i CND Cymru yn ei hewyllys.**

Roedd Vera Jones yn weithgar iawn yn CND Cymru am flynyddoedd lawer. Roedd hi a'i chwaer Muriel yn ymroddedig, yn enwedig, i gefnogi ymgyrch Greenham, ac am 30 mlynedd, hi a fyddai'n goruchwylio plannu coeden heddwch yn Llandrindod bob blwyddyn, i goffáu dioddefaint pobl Hiroshima a Nagasaki.

## Rowena Thomas
## *Gweithredydd gwrth-niwclear*
## *bu farw 2016, Bwlchgwyn, Clwyd*

**Yn drist iawn, bu farw Rowena Thomas, a fu'n wrthwynebydd angerddol i ryfel ac arfau niwclear ar hyd ei hoes, yn 2016 yn 95 oed.**

Ni welai unrhyw ffiniau rhwng ei swyddogaethau a'i gwaith fel athrawes, mam, athrawes ioga, Cristion a gweithredydd cymuned. Ar ôl ymddeol yn ei 60au, treuliodd 30 mlynedd nesaf ei bywyd yn weithgar iawn yn y mudiad heddwch a gwrth-niwclear. Heblaw am weithredu yn Greenham, treuliodd wythnosau yn y carchar am 'dorri'r weiren' sawl gorsaf niwclear a safle milwrol, fel rhan o Ymgyrch Caseg Eira y 1980au. Roedd hefyd yn enwog, ynghyd â Lib Rowlands-Hughes, Llangollen, am godi arwyddion 'Croeso i'r Gymru Ddi-niwclear' ar hyd y ffin â Lloegr pan wnaed y Datganiad 1982. Prin gyffwrdd ag wyneb ei holl weithredu uniongyrchol o blaid byd heddychlon, cyfiawn, di-niwclear a wna hyn. Mae Rowena bellach wedi trosglwyddo'r baton i ni.

## Dr Rhoda (Doni) Jones
## *CND Cymru*
## *1919-2016, Llan Ffestiniog*

**Trist oedd glywed am farwolaeth Doni, un o hoelion wyth CND Cymru a llu o ymgyrchoedd eraill dros flynyddoedd lawer.**

Doni oedd ein Hysgrifennydd Grwpiau a Grwpiau Cysylltiol cydwybodol am nifer o flynyddoedd. Cyfrannodd yn gyson at gyfarfodydd Cyngor CND Cymru, a phrotestio a gwrthdystio, yn enwedig o blaid Cymru Ddi-niwclear, ac yn erbyn atomfeydd Trawsfynydd a'r Wylfa, taflegrau Cruise a Trident. A hithau bob amser yn gwmni difyr, mawr yw ein colled at ôl Doni. Mae CND Cymru yn estyn ein cydymdeimlad dwys i Bini a'r teulu.

ER COF

# George Crabb:

## Ein Cyfaill, Cydymaith, Brawd: 1924 - 2016

**Ar hyd ei oes, roedd George yn enghraifft anhygoel o ddyn a oedd yn ymroddedig i wneud y byd yn well lle, gan weithio gyda eraill o blaid gwir gyfiawnder cymdeithasol a heddwch. Roedd George yr un mor weithgar yn ein hymgyrchoedd yn erbyn pŵer niwclear.**

Roedd George Crabb tan yn ddiweddar yn aelod gweithgar o CND Cymru ac yn Is-Gadeirydd y mudiad. Am flynyddoedd bu ef, a'i ddiweddar wraig, Jeanne, yn aelodau cwbl ddibynadwy o lawer o grwpiau sy'n ymgyrchu dros newid, yn cynnwys Siop Heddwch Caerdydd, Cynefin y Werin, CND Y Bontfaen, CND Pen-y-bont, CND y Cyn-luoedd a Chyn-filwyr dros Heddwch, ac Ymgyrch Byncer Pen-y-bont.

### Yr Ymgyrchydd

Yn Ymgyrch y Gaseg Eira, bu George a Jeanne yn torri ffensys cyn eu rhoi eu hunain yn nwylo'r heddlu. Fe gofir George am Gaerwent, Breudeth ac ROF Llanisien, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru, ymgyrch Atal Hinkley; yr ymgyrch i sicrhau codi carreg goffa i wrthwynebwyr cydwybodol Cymru yng ngardd y Deml Heddwch, a'r ymgyrch dros Senedd i Gymru.

Byddai George yn gwisgo medalau milwrol ei dad ym mhob digwyddiad coffa a phrotestiad, i dystiolaethu i'r ffaith y dywedwyd celwydd ynglŷn â'r 'rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel'.

### Undod am byth

Roedd George yn aelod gweithgar o Blaid Gomiwnyddol Prydain Fawr tan y diwedd. Arferai ddweud iddo fyw trwy gynnydd y pleidiau Ffasgaidd yn Sbaen a'r Almaen, a gwyddai'n iawn beth oedd eu bwriad a chanlyniadau hynny. Pan ddaeth George i Gymru fel glöwr yn y 1950au, roedd y Blaid Gomiwnyddol yn gryf, yn enwedig oherwydd y traddodiad o undod, anghydffurfiaeth a sosialaeth ymhlith y Cymry yn gyffredinol, a'r glowyr yn enwedig.

Fel mwyngloddiwr ifanc, bu George mewn cyfarfod o'r Gynghrair dros Ddemocratiaeth Gwlad Groeg – cam tyngedfennol gan mai yno y cyfarfu â'i ddarpar-wraig, Jeanne. Bydd llawer ohonom bob amser yn meddwl am George a Jeanne gyda'i gilydd. A hwythau'n rhannu'r un weledigaeth ideolegol, roedden nhw'n cydweddu'n berffaith i deithio moroedd gwleidyddol ddiddorol y 1950au ... 60au ... 70au ...




80au ... 90au ... ac yn y blaen, i mewn i'r unfed ganrif ar hugain.

### Athro 'anghenion arbennig'

Ar ôl hyfforddi fel athro, aeth George i weithio yn ysgol anghenion arbennig Pentyrch – Craig y Parc. Cafodd ei ddenu i weithio yn Ysgol Erw'r Delyn, Penarth (Ysgol Penarth i ran dan Anfantais Corfforol). Tua 1966, roedd Cymdeithas y Sbastigion (Scope bellach) yn adeiladu ysgolion newydd arloesol. Cafodd George gynnig swydd prifathro Meldreth Manor yn Hertfordshire, gyda Jeanne ar ei dîm. Roedd hwn yn gyfle aruthrol iddynt, gan eu rhoi ar flaen cad darparu addysg ar gyfer plant â pharlys yr

ymennydd. Roedd y ffocws ar gydnabod anghenion y plentyn cyfan – o safbwynt corfforol, emosiynol ac academaidd.

Mae gwahanol fathau o drais yn bodoli – ac mae cadw pobl dan glo mewn sefydliadau iechyd meddwl am eu bod yn 'wahanol' yn ymyrryd â'i hawliau dynol. Gwyddai George erioed mai dim pobl sy'n ceisio chwarae teg, cyfiawnder cymdeithasol a heddwch i'r byd a allai sefyll wrth droed bryn mor serth a gweld yn glir beth sydd angen ei wneud, a sut mae cyflawni hynny.


Yn y man, dychwelodd Jeanne and George i dde Cymru lle'r aeth George yn brifathro ysgol breswyl Erw'r Delyn (Ysgol Penarth i ran dan Anfantais Corfforol).

## Yr iaith Gymraeg

Gwyddai George na cheir newid gwirioneddol heb helpu pobl i fyw bywydau bodlon a thrwy drefnu undod rhwng pobl ddosbarth-gweithiol, beth bynnag y bo'u hiaith. Ar ôl ymddeol, symudodd George a Jeanne i'r Bontfaen. Dysgodd y ddau Gymraeg, gan fynychu dosbarthiadau dydd, dosbarthiadau nos, cyrsiau dwys, cyrsiau Llangrannog, cyrsiau Eisteddfod a chyrsiau preswyl. Yn anorfod, daethant yn rhugl yn y pen draw, ac arwain eu dosbarthiadau eu hunain yn y Bontfaen.

## Gweithio dros heddwch

Gyda Jeanne, aeth George hyd yn oed yn fwy gweithgar yn y mudiad heddwch. Teithiodd y ddau i'r Undeb Sofietaidd fel rhan o ddirprwyaeth heddwch yn y 1980au; cynrychioli Cymru mewn protest yn erbyn lansio llongau tanfor niwclear yn Llydaw; cynrychioli CND Cymru yn Iwerddon; eistedd yn y ffordd yn Hinkley Point a Thrawsfynydd, a 'thresmasu' ar dir wedi ei neillto ar gyfer hyfforddi milwrol ar Fannau Brycheiniog.
Roedd Jeanne and George yn rhan o wylnosau misol Cymru yn USAF Molesworth (lle bwriedid lleoli taflegrau niwclear arfog Cruise yr UD – fel Comin Greenham). Roedd yn rhaid cysgu allan o dan y sêr ar y ddaear oer – roedd gwaharddiad ar bebyll – a gwnaethant hynny unwaith y mis am flwyddyn gron. Roedd y brotest yn llwyddiant. Heddiw, does dim taflegrau niwclear arfog Cruise ym Molesworth, nac yn Greenham



## Cydganu

Fel llawer ohonom, credai George (yn gwbl gywir) mewn cynnydd trwy gyd-ymdrech, ewyllys a brwydr pobl gyffredin (arbennig) go iawn. Fel aelodau côr – ac roedd George yn aelod o Gôr Meibion y Machlud – deallai bwer cyd-godi llais a chydganu.

Mae yna gred ein bod, wrth heneiddio, yn mynd yn llai ymrwymedig ac yn fwy adweithiol. Dydy hynny ddim yn wir, ac mae bywyd George yn tystio i hynny.

***"Hwyrach na fedrwn ei weld o'n blaenau, ond mae'r cwbl a weithiodd George drosto ac y poenai amdano yn dal yma, a rhaid i'n hymdrech barhau. Mae dwylo George yn dal ein rhai ni o hyd. Rydym yn addo parhau â gwaith y dyn cwbl dda hwn, yn null penderfynol, deallus ac addfwyn ein hannwyl gyfaill a'n cydymaith y gwelwn ei golli gymaint."***

*Jill Gough*
*Ysgrifennydd Cenedlaethol*
*CND Cymru*

# Cynulliad y Werin y Rhyl

# Penwythnos Heddwch 2017

**Nos Wener 13 - Dydd Sul 15 Ionawr**

***Siaradwyr a thrafodaeth***

**Dydd Sadwrn 1-5yp**
**Eglwys Santes Fair, Ffordd Wellington**

**http://www.rhylpeoplesassembly.org/about_us**
**https://www.facebook.com/groups/560851544039911/?fref=ts**

**Pobol Atal Wylfa-B**
**People Against Wylfa-B**

**Cynhelir cyfarfodydd pwysig gan PAWB yn 2017: Dydd Sadwrn Mawrth 11fed (lleoliad i'w cadarnhau); Awst 5ed-12fed yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn**

---

**Cliciwch ar y dolen i arwyddo deiseb newydd am Hinkley C a Bradwell**
https://petition.parliament.uk/petitions/167202


# HEDDWCH

yw cylchgrawn yr **Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru** (CND Cymru)
**golygydd:**
Philip Steele
**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk
**cynhyrchu a phostio:**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

**Os oes gennych unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth – neu sylwadau – i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf, anfonwch nhw i heddwch@cndcymru.org**

**Cyhoeddir y rhifyn nesaf: Gwanwyn 2017.**

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.*


# Dilynwch CND Cymru ar Facebook!

**Am wybodaeth ddiweddarach am ein hymgyrchoedd a manylion o gyfarfodydd a gweithgareddau ledled Cymru.**

## CYSYLLTIADAU

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

# CYSYLLTIADAU

**Brian Jones**
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com

**Duncan Rees**
07774 268 371
Duncan.rees01@gmail.com

**trysorydd, aelodaeth ac aelodau:**
CND Cymru
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

**ysgrifenydd cenedlaethol:**
Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
twitter: @cndcymru
www.cndcymru.org
facebook: cndcymru